
# Calfaria
# Eglwys y Bedyddwyr
# Penygroes

## Dathlu
## Canmlwyddiant



# 1896 - 1996

# Emynau'r Dathlu.
## Dydd Sadwrn Medi 14, 1996.
## Cyfarfod y Prynhawn.

1. TÔN : HENGOED.

Cenwch i'r Arglwydd,
Cenwch i'r Arglwydd,
Iôr ein hymwared ni yw;
Aed yn beraidd hyd y nef
Aberth moliant iddo Ef;
Bendigedig fo'r Arglwydd,
Ein Duw.

Moeswch i'r Arglwydd,
Moeswch i'r Arglwydd,
Moeswch ogoniant a nerth;
O'u caethiwed, rhoed yn rhydd
Fyrdd o etifeddion ffydd:
Mawl i enw Preswylydd y berth

Molwch yr Arglwydd,
Molwch yr Arglwydd,
Molwch yr Arglwydd, ei saint;
Wrth ffynhonnau'r dyfroedd byw,
Gorfoledded meibion Duw,
Byddant hyfryd, yng nghwmni
Eu braint.

Dychwel i'w Seion,
Dychwel i'w Seion
Dyrfa aneirif, ryw ddydd;
Bydd llawenydd ar eu pen;
Ac o flaen yr orsedd wen,
Haleliwia dragwyddol a fydd.

2. TÔN : WIRKSWORTH

Crwydrasom oll ymhell
Oddi wrthyt, dirion Dad,
Adduned Bethel aeth dros gof
Ar dirion estron wlad.

Dilynaist ni bob cam,
A'th gysgod drosom fu,
Ein gwared wnest, ni wyddom pam,
O gyfyngderau lu.

Rhag in dy ddigio mwy,
A gwrthryfela'n ffôl ,
I fan y weledigaeth gynt
'R wyt am ein cael yn ôl.

I Fethel eto'r awn,
A chofio'r llw a wnaed,
Tyrd Dithau yno, O! ein Duw,
A chwympwn wrth dy draed.

3.

TÔN : CRIMOND.

O! Dduw ein nerth mewn oesoedd gynt,
Ein gobaith am a ddaw,
Ein lloches rhag ystormus wynt,
A'n bythol gartref draw.

Cyn llunio'r bryniau o un rhyw,
Cyn gosod seiliau'r byd,
O dragwyddoldeb Ti wyt Dduw,
Parhei yr un o hyd.

Mil o flynyddoedd iti sydd
Fel doe pan ddêl i ben,
Neu wyliadwraieth cyn y dydd
A chodi haul y nen.

Llifeiriant amser ddwg yn glau
O'i flaen holl oesoedd llawr;
Yn angof ânt fel breuddwyd brau
A gilia gyda'r wawr.

O! Dduw ein nerth mewn oesoedd gynt,
Ein gobaith am a ddaw,
Bydd inni'n nawdd tra pery'n hynt
A'n bythol gartref draw.

4.

I Dduw bo'r Gogoniant! fe wnaeth wyrthiau mawr,
Rhoi'i fab yn ei gariad dros holl blant y llawr.
Hwn ildiodd ei fywyd yn iawn dros ein bai,
Porth nef a agorodd cawn fywyd di-drai.

*Clod i Dduw! Clod i Dduw! gwrando fyd ar ei lef,*
*Clod i Dduw! Clod i Dduw! rhoddwn glod iddo ef;*
*O dewch at yr Arglwydd drwy'r Iesu yn awr,*
*Rhowch iddo'r gogoniant, fe wnaeth wyrthiau mawr.*

O! ras sydd mor berffaith, drwy'r gwaed fe gaed iawn,
I bob un sy'n credu'r addewid yn llawn;
I'r pennaf pechadur a gred yn y Tad,
Ar unwaith gan Iesu caiff bardwn yn rhad.

Mawr waith fu'n ein dysgu, mawr wyrthiau a wnaeth,
A mawr yw'r gorfoledd drwy Iesu a ddaeth;
Ond purach a chryfach a llawnach a fydd,
Rhyfeddod yr arfaeth - gweld Iesu ryw ddydd.

# Cyfarfod yr Hwyr

1. TÔN : DUKE STREET

Henffych i enw Iesu gwiw,
Syrthied o'i flaen angylion Duw;
Rhowch iddo'r parch holl deulu'r nef;
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

Chwychwi a brynwyd trwy ei waed,
Plygwch yn isel wrth ei draed;
Fe'ch tynnodd a thrugaredd gref;
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

Boed i bob llwyth a phob rhyw iaith
Drwy holl derfynau'r ddaear faith,
Gydganu'n llafar iawn eu llef:
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

Er bod ein beiau'n amal iawn,
Mae ganddo iachawdwriaeth lawn;
Eu cannu'n wyn wna Brenin nef;
Yn Arglwydd pawb coronwch Ef.

2. TÔN : LLANDAF

Tyred Arglwydd Iôr i lawr,
Tyred yn dy gariad mawr;
Tyred, una ni bob un
Yn dy gariad pur dy Hun.

O! llefara air yn awr,
Gair a dynn y nef i lawr;
Ninnau gydag engyl nen
Rown y goron ar dy ben.

Yma nid oes gennym ni
Neb yn Arglwydd ond Tydi
Ac ni cheisiwn arall chwaith
Oesoedd tragwyddoldeb maith.

Arglwydd, disgyn oddi fry,
Ac yn awr o fewn dy dy
Tyn ni atat, gwna ni'n un
Yn dy gariad ti dy hun.

3.

TÔN : ELLACOMBE

O! Rho dy fendith, Nefol Dad,
Ar holl genhedloedd byd,
I ddifa'r ofnau ym mhob gwlad
Sy'n tarfu hedd o hyd.
Rhag dial gwyllt, rhag dyfais dyn,
Mewn cariad cadw ni,
A dyro inni'r ffydd a lyn
Wrth dy gyfiawnder Di.

Rho i wirionedd heol glir
Drwy ddryswch blin yr oes,
A chluded ffyrdd y môr a'r tir
Ddatguddiad gwell o'r Groes.
Rhag troi y byd yn anial gwyw,
Rhag llygru nwyd a greddf,
Rho inni'r ddawn i fentro byw
A chariad inni'n ddeddf.

Rho inni fyd heb boen a phla,
Heb ing ymrafael trist,
Cynydded rhin ewyllys da
Disgyblion Iesu Grist.
Rhag gwasgar mwy dy deulu Di,
A chwalu'r byd â chas,
Cysegra ein brawdgarwch ni
Â holl ddoethineb gras.

4.

TÔN : MACABEUS

Crist a Orchfygodd
Fore'r trydydd dydd,
Cododd ein Gwaredwr,
Daeth o'i rwymau'n rhydd.
Gwisgodd ei ogoniant
Sydd yn ddisglair iawn,
Wedi gweld ei harddwch
Ninnau lawenhawn.

*Crist a Orchfygodd*
*Fore'r trydydd dydd,*
*Cododd ein Gwaredwr,*
*Daeth o'i rwymau'n rhydd.*

Daw ef i'n cyfarch
Gyda thoriad gwawr,
Gwasgar ein hamheuon,
Lladd ein hofnau mawr.
Cryfach fyddwn ninnau
Yn ei gwmni Ef
Rhodiwn yn hyderus
Ar ein ffordd i'r nef.

Ni yw ei dystion,
Awn ymlaen a'i waith,
Gan gyhoeddi'i enw
Ym mhob gwlad ac iaith.
Gobaith sydd yn Iesu
I'r holl ddynol-ryw,
Concrwr byd a'i bechod,
Y pencampwr yw.

# Croeso Cynnes i chwi ymuno â ni yng

# Nghalfaria, Eglwys y Bedyddwyr Penygroes

yn ein gweithgareddau wythnosol.

<u>Dydd Sul</u>

| | |
|---|---|
| 10 - 30 a.m | Oedfa Fore ac Ysgol Sul |
| 2 - 00 p.m. | English Service. |
| 5 - 30 p.m. | Oedfa Hwyrol |

<u>Nos Fercher</u>

| | |
|---|---|
| 7 - 15 p.m. | Dosbarth Beiblaidd. |

<u>Nos Wener</u>

| | |
|---|---|
| 6 - 00p.m. | Corlan y Plant |
| 7 - 15 p.m. | Yr Hedyn Mwstard |
| 7 - 45 p.m. | Y Bobl Ifanc |

**Am fanylion pellach cysylltwch â'r Gweinidog**
**Y Parchg. H. Vincent Watkins.**
**Ffon. 01792 / 771650.**

Mae gan yr Eglwys bws-mini ac felly
os yw trafnidiaeth yn broblem
Ffoniwch 842859 i drefnu cludiant.